Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pant-Y-Rhedyn

**Ffordd Penmaenmawr**
**Llanfairfechan**
**Conwy**
**LL33 0PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pant-Y-Rhedyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pant-Y-Rhedyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 157 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 157 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 23% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 23.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 31.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Pant-Y-Rhedyn yn amgylchedd dysgu gofalgar a chynhwysol. Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth ar y cyd a adlewyrchir trwy arwyddair yr ysgol, sef 'Trwy ymdrechu, byddaf yn llwyddo'. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod gwersi, yn ystod amser chwarae a phan fyddant yn symud o gwmpas adeilad yr ysgol. Maent yn elwa ar ffocws cryf yr ysgol ar iechyd a lles. Maent yn llwyddo i ysbrydoli disgyblion i ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. O ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn datblygu medrau digidol, fel dysgu sut i ddefnyddio codio i redeg rhaglenni syml. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol, ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau llythrennedd mewn Saesneg yn dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, er bod y cyfleoedd a gânt i ysgrifennu'n annibynnol mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd yn aml yn rhy gyfyngedig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddeall gwybodaeth sy'n cael ei rhannu â nhw yn Gymraeg, ond mae mwyafrif ohonynt yn amharod i ymateb yn Gymraeg. Yn gyffredinol, nid yw medrau Cymraeg disgyblion wrth siarad Cymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gwersi difyr fel rhan o gwricwlwm eang a chytbwys. Yn yr enghreifftiau cryfaf, maent yn darparu gweithgareddau heriol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a chymhwyso eu medrau yn ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw tasgau'n ddigon heriol bob amser. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o holi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac asesu eu cynnydd mewn gwersi. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau rhoi cyfleoedd mwy gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwaith i ymateb i adborth ysgrifenedig, ond megis dechrau datblygu y mae hyn.

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda. Mae arweinwyr yn creu a chynnal diwylliant o waith tîm yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae staff yn cynllunio gyda'i gilydd ac yn myfyrio ar eu haddysgu a'u dysgu yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cyflwyno dulliau addysgu newydd tra'n cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan arweinwyr brosesau wedi'u gwreiddio'n dda ar gyfer hunanwerthuso gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso medrau siarad Cymraeg

A2 Darparu lefel addas o her yn gyson ar gyfer disgyblion mewn gwersi

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith trwy ymateb i adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad yn Saesneg yn dda. Maent yn ymateb i gwestiynau yn addas, gan ymhelaethu ar eu hatebion a rhoi barnau. Maent yn cyfathrebu’n glir ag oedolion ac yn siarad am y gwaith y maent wedi’i fwynhau â brwdfrydedd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu medrau darllen yn Saesneg yn dda, ac erbyn Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4, mae llawer ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i atalnodi wrth ddarllen testunau. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn darllen gyda graddau da o ruglder a mynegiant. Maent yn defnyddio eu medrau darllen i ddod o hyd i wybodaeth yn fedrus, er enghraifft i ymchwilio i gestyll Cymru ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu Saesneg yn briodol, ac yn ysgrifennu â chywirdeb cynyddol. Maent yn dechrau dewis geiriau er effaith ac yn ysgrifennu mewn amrywiaeth gynyddol o wahanol ffurfiau. O roi’r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu’n addas yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn ysgrifennu adroddiad am yr hyn ddigwyddodd i’r plisg wyau a roesant mewn hylifau siwgraidd, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ysgrifennu cofiannau Owain Glyndŵr gan ddefnyddio mynegiant ac atalnodi aeddfed. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae ysgrifennu disgyblion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm wedi’i gyfyngu gan fframiau ysgrifennu sy’n eu cyfyngu rhag ysgrifennu darnau estynedig â rhyddid a chreadigrwydd.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau o ddydd i ddydd sy’n cael eu cyfleu iddynt yn Gymraeg, ac yn caffael dealltwriaeth gynyddol o eirfa allweddol a phatrymau syml yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn cyfleu gwybodaeth syml amdanyn nhw eu hunain, er bod lleiafrif ohonynt yn gofyn am sbardunau i ateb mewn brawddegau llawn. Mae ychydig o ddisgyblion yn ymateb yn Gymraeg i drafodaethau yn ystod gwersi. Mae mwyafrif ohonynt yn amharod i siarad Cymraeg yn ddigymell y tu hwnt i ddefnyddio cyfarchion syml. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn datblygu medrau darllen Cymraeg, gan gynnwys darllen a deall. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu brawddegau Cymraeg syml gan ddefnyddio sbardunau neu fframiau ysgrifennu, ac yn dechrau ysgrifennu at wahanol ddibenion. Er enghraifft, maent yn creu poster i hysbysebu parciau cenedlaethol Cymru sy’n cynnwys y nodweddion allweddol ar ffurf pwyntiau bwled.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod gwersi mathemateg. Maent yn datblygu ystod addas o fedrau rhifedd sy’n cael eu cymhwyso’n dda ganddynt yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn darllen thermomedrau’n gywir wrth gofnodi tymheredd y dŵr yn ystod ymchwiliad i ynysyddion, ac yn creu siartiau syml i ddangos canran gwahanol ddeunyddiau sy’n cael eu hanfon ar gyfer eu hailgylchu.

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn cymhwyso medrau rhif yn systematig i gyfrifo teyrnasiad pob un o Dywysogion Cymru.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn caffael a chymhwyso medrau digidol. Maent yn llwyddo i fynd at eu gwaith eu hunain ar-lein, a'i adalw. Mae bron pob un o'r disgyblion yn creu cyflwyniadau digidol deniadol ac addysgiadol, er enghraifft i hyrwyddo Diwrnod Cefnforoedd y Byd. Mae llawer ohonynt yn defnyddio taenlenni'n briodol, er enghraifft i gymharu niferoedd y bobl sy'n perthyn i wahanol grefyddau o ganlyniadau cyfrifiad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau codio yn briodol, er enghraifft i raglenni tegan robotig maent wedi'i adeiladu eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau creadigol yn briodol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn creu darnau arian Rhufeinig o glai, ac mae disgyblion hŷn yn creu darnau o gelf yn arddull arlunwyr cyfoes o Gymru yn fedrus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau athletau gwerth chweil, sesiynau cyfeiriannu, a dawnsio gwerin Cymreig.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ethos cryf o barch ar y ddwy ochr tuag at staff, ac at ei gilydd. Mae'r ethos hwn yn adlewyrchu gwerthoedd ymgorfforedig yr ysgol, sef 'caredigrwydd, balchder a pharch' a atgyfnerthir yn gyson yn ystod gwersi ac addoli ar y cyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac y gwrandewir arnynt yn yr ysgol, ac maent yn hyderus y bydd staff yn ymdrin ag unrhyw ofidiau neu broblemau yn effeithiol ac yn brydlon. Mae disgyblion yn elwa ar weithgareddau dysgu gwerthfawr sy'n cefnogi eu lles. Er enghraifft, maent yn dilyn cynlluniau pwrpasol sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu medrau cymdeithasol, fel datrys gwrthdaro.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn iach a diogel. Maent yn siarad yn hyderus am fuddion diet cytbwys a phwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar lan y môr fel rhan o bythefnos blynyddol diogelwch y môr. Maent yn teimlo bod hyn yn hynod fuddiol o ystyried eu bod yn byw mewn pentref arfordirol. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, fel y filltir wythnosol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn barchus iawn o'i gilydd, ac yn dangos ymddygiad rhagorol yn y dosbarth ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at yr awyrgylch cwrtais a phwyllog sy'n amlwg ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin â'u gwersi â brwdfrydedd, ac yn gwybod sut i'w paratoi eu hunain yn effeithiol ar gyfer dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu, ac o ganlyniad, yn dangos lefelau uchel o ymgysylltiad, gan ganolbwyntio am gyfnodau amser cynaledig ar dasgau. Maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill, ac yn cydweithio mewn parau neu grwpiau mwy yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn hyderus i ymgymryd â gwahanol rolau a chyfrifoldebau o fewn tasgau grŵp, ac mae bron pob un ohonynt yn gweithio'n dda â'u cyfoedion i ddatrys problemau yn eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth gwblhau tasgau newydd. Er enghraifft, wrth greu animeiddiad wedi'i seilio ar y Celtiaid a'r Rhufeiniaid, dyfalbarhaodd disgyblion yn dda i gyflawni eu fframiau perffaith. O ganlyniad i ddysgu helaeth ynghylch datblygu gwydnwch a dysgu cadarnhaol a meddylfryd lles, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod beth i'w wneud wrth ymateb i sefyllfaoedd anghyfarwydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd herio eu hunain yn eu dysgu, a chânt eu hannog yn rheolaidd i ddewis tasgau sy'n eu hymestyn o blith cyfres o opsiynau. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau hyn bob amser yn darparu digon o her, ac mae ychydig o ddisgyblion yn dewis y gweithgareddau haws yn ddiangen. O roi'r cyfle iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau myfyrio'n feddylgar ar eu dysgu, ac mae rhai ohonynt yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Yn yr achosion cryfaf, mae disgyblion yn gwella cywirdeb a chynnwys eu gwaith i ymateb i adborth athrawon. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi'i gwreiddio'n llawn.

Yn ddiweddar, ailsefydlodd yr ysgol eu fforymau disgyblion cynhwysol i ddarparu cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar rai meysydd o fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r pwyllgor eco a'r cyngor ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent wedi dechrau gweithredu ar nodau a amlinellir yn eu cynlluniau, ac mae hyn yn dechrau cael effaith ehangach ar yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau datblygu i fod yn ddinasyddion sy'n foesegol wybodus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'u hawliau. Maent yn cyfrannu'n wybodus at drafodaethau dosbarth ar faterion fel gwrthfwlio, ac mae ganddynt gredoau moesol cryf sy'n cael eu hategu gan werthoedd yr ysgol.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb ysgol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau addysgu yn llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau dysgu prysur a difyr.

Mae athrawon yn ymgysylltu â disgyblion ar ddechrau gwersi trwy roi cyflwyniadau diddorol sy'n ysbrydoli disgyblion. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o holi i annog disgyblion i feddwl a datblygu eu hatebion, ac yn modelu Cymraeg a Saesneg yn effeithiol. Mae athrawon yn cyflwyno gwersi â chyflymdra addas, gan ddarparu gweithgareddau cychwynnol yn aml sy'n helpu cyflwyno disgyblion i brif nod eu gwers. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael trafodaeth mewn parau am y cwestiwn 'pam cafodd cestyll eu hadeiladu?'. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion lunio meini prawf llwyddiant ar y cyd, ac yn dangos sut olwg ddylai fod ar waith da. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall sut i ymateb i dasgau yn dda yn ystod gweithgareddau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion ar lafar yn ystod gwersi, ac yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gael amcan o ba ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u tasgau. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi mabwysiadu dull newydd o roi adborth ysgrifenedig. O ganlyniad, yn yr enghreifftiau cryfaf, mae disgyblion yn gwella cywirdeb a chynnwys eu gwaith.

Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi'i hymgorffori'n llawn eto, ac mae effaith yr adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn anghyson.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio a chyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys trwy gyfres o destunau diddorol sy'n cynnwys cyfnodau hanesyddol a chwestiynau fel 'beth mae Cymru yn ei olygu i mi?'. Hefyd, maent yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddathlu amrywiaeth, er enghraifft pan fydd disgyblion yn gwneud cyflwyniadau am fis hanes Pobl Ddu. Mae staff yn cynllunio a chyflwyno gweithgareddau defnyddiol ar wahanol agweddau ar iechyd a lles, er enghraifft pan fydd disgyblion yn dysgu am newidiadau i'r corff yn ystod y glasoed.

Yn ddiweddar, mae athrawon wedi cyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu trwy ymholiadau fel rhan o'r testunau tymhorol. Er enghraifft, cymharodd disgyblion ymagweddau at hylendid yn ystod gwahanol gyfnodau hanesyddol â'r rhai sydd ar gael heddiw, i gyfrannu at y cwestiwn 'a yw'r oes rydym ni'n byw ynddi yn cael effaith ar ein hiechyd?'. Mae enghreifftiau o'r fath yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau heriol yn annibynnol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw'r gweithgareddau a ddarperir ar gyfer disgyblion yn rhoi digon o her i'w cynorthwyo i wneud cynnydd cynaledig. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn rhai cyd-destunau trawsgwricwlaidd.

At ei gilydd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Maent yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau sy'n datblygu medrau digidol disgyblion, er enghraifft pan fydd disgyblion yn defnyddio medrau codio i greu eu gêm gyfrifiadur syml eu hunain. At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion siarad Cymraeg yn rhy brin i'w galluogi i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. O ganlyniad, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn datblygu medrau siarad Cymraeg dros gyfnod.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, wedi'u seilio ar arsylwadau athrawon a'u dadansoddiad o gofnodion cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r wybodaeth i ddarparu cymorth ychwanegol lle mae angen, ac yn addasu'r cynllunio i flaenoriaethu agweddau ar ddysgu disgyblion. Maent hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau rhieni a disgyblion wrth gynllunio themâu newydd. Er enghraifft, trwy gynnwys stori 'Gelert' mewn thema ddiweddar ar ôl i ddisgybl fynegi diddordeb yn y chwedl.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod addas o ymweliadau oddi ar y safle. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ymweld â chanolfan gweithgareddau awyr agored. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu hyder a gwydnwch, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dŵr.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol ethos teuluol gofalgar a chynhwysol lle mae pob un o'r staff yn helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel a gwerthfawr. Mae pob aelod o staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at y lefelau uchel o ymddiriedaeth ar y ddwy ochr.

Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu sesiynau effeithiol i unigolion a grwpiau bach sydd wedi'u teilwra'n agos i anghenion disgyblion a nodwyd. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth gref i gefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion. Er enghraifft, mae staff wedi cael hyfforddiant i gynorthwyo disgyblion â'u lles, a rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ar draws yr ysgol ddysgu am sut i gryfhau eu hunan-barch a datblygu eu medrau cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn cyflwyno addoli dyddiol ar y cyd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Ar draws yr ysgol, rhoddir pwyslais addas ar gynhwysiant a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau dynol. Mae'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion i ennill gwerthfawrogiad da o gydraddoldeb, tegwch a chyfiawnder, a'r modd y mae'r cysyniadau hyn yn ymwneud â'u bywydau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn esbonio pam mae parchu pawb yn bwysig ac yn archwilio bywydau pobl o wahanol gefndiroedd a gwledydd. Mae ystod briodol o weithgareddau yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant.

Ceir systemau effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion, a threfniadau ar gyfer nodi anghenion disgyblion penodol, ac ymateb iddynt. Mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn, ac mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol arbenigol, lle bo'n briodol, i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r cydlynydd ADY yn helpu athrawon a staff cymorth i deilwra darpariaeth i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion trwy weithredu ystod eang o raglenni dysgu ychwanegol. Er enghraifft, mae grwpiau o ddisgyblion yn elwa ar gymorth ychwanegol i gryfhau eu medrau llythrennedd sylfaenol, eu lles a'u hunan-barch.

Ceir diwylliant cadarn o ddiogelu yn yr ysgol, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Ceir ffocws cryf ar helpu disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach, gan gynnwys cadw'n ddiogel ar-lein. Cânt eu haddysgu ynglŷn â sut i wneud dewisiadau iach ynghylch bwyd, a rhoddir cyfleoedd gwerth chweil iddynt ddatblygu eu medrau corfforol. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion ac yn mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn briodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda. Mae'r pennaeth, ynghyd â thîm brwdfrydig o staff, yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer 'cymell ac ysbrydoli disgyblion i fod y gorau y gallant fod', ac yn ymgorffori arwyddair eu hysgol, sef 'trwy ymdrech, byddaf yn llwyddo'.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio a chymorth ymhlith staff. Maent yn teimlo eu bod wedi cael eu grymuso, yn cael eu cynorthwyo ac yr ymddiriedir ynddynt. Mae staff yn ymateb yn dda i'r diwylliant tîm hwn fel y dangosir yn eu gwaith yn cynllunio gwersi, dilyniannau o weithgareddau dysgu a themâu i sicrhau cysondeb yn y cynnig dysgu ar gyfer disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n dda â phobl y tu hwnt i'r ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio'n bwrpasol gydag ysgolion eraill i ddatblygu polisi ADY ar y cyd, a datblygu agweddau ar y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn awyddus i feithrin a datblygu staff ar bob lefel ac yn cefnogi eu dysgu proffesiynol yn dda. Mae arweinwyr yn annog staff i drafod a myfyrio ar eu

dulliau addysgu, a cheisio cyngor am ffyrdd i wella. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn bwrpasol, gyda thargedau sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu dealltwriaeth staff o egwyddorion a disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn dyfnhau eu medrau deall i arwain diwygio addysg yn gadarn, fel addasu eu hymagwedd at gynorthwyo disgyblion ag ADY.

Ceir diwylliant sefydledig o werthuso a myfyrio yn yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn defnyddio dulliau synhwyrol i gasglu tystiolaeth uniongyrchol trwy arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a theithiau dysgu, er enghraifft. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rhoi trosolwg addas i arweinwyr o ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r sylwadau a wna arweinwyr a staff yn canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft ynghylch addysgu, gyda llai o sylwadau'n canolbwyntio ar ddysgu, er enghraifft beth mae disgyblion yn gallu ei wneud a'i gyflawni.

Mae arweinwyr yn casglu a dadansoddi gwybodaeth o'u gweithgareddau hunanwerthuso i gynllunio eu blaenoriaethau gwella at y dyfodol. Yn aml, mae'r rhain yn gryno ac yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu meysydd pwysig o'r ysgol. At ei gilydd, ceir hanes cadarn o welliant. Er enghraifft, nododd y prosesau hunanwerthuso fod angen lleihau nifer y taflenni gwaith y mae disgyblion yn eu llenwi yn eu gwaith mathemateg, sydd, o ganlyniad, bellach yn eu galluogi i ddangos mwy o'u gwaith cyfrifo mewn camau systematig. Yn gyffredinol, mae llawer o'r materion a godwyd yn yr arolygiad yn feysydd y mae'r ysgol eisoes wedi'u nodi yn eu gwerthusiadau. Fodd bynnag, mae gwella medrau Cymraeg disgyblion yn agwedd sydd wedi parhau'n flaenoriaeth i'r ysgol dros nifer o flynyddoedd. At ei gilydd, nid yw'r ysgol wedi rhoi gwelliannau digon cynaliadwy ar waith yn y maes hwn eto.

Yn sgil ymglymiad mewn llawer o weithgareddau hunanwerthuso gwerth chweil ac ymweliadau â'r ysgol, mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu rôl fel ffrindiau beirniadol ac yn gofyn cwestiynau gwybodus mewn cyfarfodydd. Maent yn cyfrannu'n dda at osod y cyfeiriad ar gyfer yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn dda, fel eu rôl yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli eu cyllidebau'n ofalus ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella. Defnyddir adnoddau o gyllid grant yn briodol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion. Er enghraifft, defnyddir y grant datblygu disgyblion yn briodol i gynorthwyo disgyblion bregus trwy ariannu ymarferwyr i gefnogi lles emosiynol disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/12/2022